PSOW 17
Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)
Public Services Ombudsman (Wales) Bill
Ymateb gan: Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
Response from: Healthcare Inspectorate Wales (HIW)

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8025
E-bost: Kathryn.Chamberlain@llyw.cymru

Chloe Davies – Deputy Clerk
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Chloe.Davies@assembly.wales mailto:SeneddCommunities@Assembly.Wales

Dyddiad: 29 Tachwedd 2017

Ein cyf:

Annwyl Chloe

**RE: Ymateb i'r ymgynghoriad ar yr Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)**

Gwelir yn atodedig, fel y gofynnwyd, llythyr sy'n rhoi cyflwyniad ysgrifenedig ar y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru).

Yn gywir

Dr Kate Chamberlain
Prif Weithredwr
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da

Checking people in Wales are receiving good care

Llywodraeth Cymru / Welsh Government
Parc Busnes Rhydycar / Rhydycar Business Park
Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil
CF48 1UZ
Tel / Ffôn 0300 062 8163
Fax / Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

**Tachwedd 2017**

# Ymgynghoriad ar Fil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

## Materion cyd-destunol

1. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at y gwaith craffu ar Fil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru). Rydym wedi fframio ein hymateb yn bennaf yng nghyd-destun cyfrifoldebau'r Ombwdsmon o ran darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol, er ein bod yn cydnabod bod ei bwerau'n ymestyn yn ehangach na hynny. Cafodd ein rôl ei hamlinellu yn Atodiad 1.

2. Mae adroddiad interim yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn nodi:

   *“Mae consensws cryf ymhlith y rhanddeiliaid y gwnaethom siarad â nhw ynghylch y cyfeiriad cyffredinol tuag at ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol di-dor, sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau sydd o bwys i'r unigolyn.”*

3. Mae symud tuag at y cyfeiriad hwn yn cefnogi nifer o'r pwerau newydd.

   **Cwynion ar lafar.** Croesewir yr hyblygrwydd i dderbyn cwynion yn y ffordd sydd fwyaf hygyrch a phriodol i'r sawl sy'n cwyno.

   **Llwybr cyhoeddus/preifat.** Croesewir y gallu i archwilio'n llawn i amgylchiadau gofal unigolyn pan fod y gofal hwnnw'n croesi'r ffin rhwng cyrff rhestredig a gofal iechyd preifat.

   **Safonau delio â chwynion.** Dylai cyflwyno prosesau cyson a di-dor ar gyfer delio â chwynion ar draws ffiniau gwasanaethau symleiddio’r broses a darparu eglurder ar gyfer y cyhoedd.

4. Bydd hi'n bwysig sicrhau bod y gwaith o weithredu’r pwerau yn y Bil hwn yn ymwybodol o ddatblygiadau deddfwriaethol perthnasol, ac wedi’i alinio â’r datblygiadau hyn, fel deddfwriaeth bosib yn dilyn Papur Gwyn “Gwasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol”, sydd hefyd yn mynd i'r afael â'r angen i alinio safonau a phrosesau cwyno ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

## Darpariaeth i'r Ombwdsmon dderbyn cwynion ar lafar

5. Rydym yn croesawu’r hyblygrwydd yn y Bil, sy'n caniatáu i'r Ombwdsmon amlinellu ffurf a chynnwys cwynion yn y canllawiau. Bydd hyn yn sicrhau bod yr Ombwdsmon yn medru nodi'n glir beth fydd yn cael ei drin fel cwyn ffurfiol, gan fod pobl yn defnyddio technoleg mewn ffyrdd gwahanol (e.e. e-bost, negeseuon testun, Twitter).

6. Rydym yn cefnogi'r ddarpariaeth y dylai'r Ombwdsmon fedru derbyn cwynion ar lafar. Gallai rhai pobl ei chael hi'n anodd mynegi eu hunain yn ddigonol yn ysgrifenedig ac felly byddai'n cynorthwyo mynediad i ganiatáu i gwynion gael eu cyflwyno mewn amrywiaeth o ddulliau.

7. Fodd bynnag, bydd hi'n bwysig bod yr Ombwdsmon yn cofnodi'r wybodaeth ar ffurf ysgrifenedig a chadarnhau gyda'r unigolyn sy'n cwyno bod y cofnod yn adlewyrchu'n gywir y materion roedd am eu codi. Dylid gwneud hyn ar lafar ar yr adeg y caiff y gŵyn ei gwneud, p'un ai a yw'r unigolyn sy'n cwyno yn dymuno derbyn cadarnhad ysgrifenedig ai peidio.

8. Gellid dadlau bod Cymal 8 (9) yn rhy benodol ac nid yw'n mynd yn ddigon pell ar gyfer dibenion monitro mynediad a chanlyniadau. O bosib, gellid ei aralleirio ar hyd y trywydd, "Mae'n rhaid i'r Ombwdsmon gynnal cofrestr o'r holl gwynion, y modd y cawsant eu derbyn, a'r canlyniad." Gallai hyn helpu i fonitro a gwerthuso p'un ai a yw cwynion llafar yn fwy neu'n llai tebygol o fynd ymlaen at ymchwiliad ffurfiol.

## <u>Darpariaeth i ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon i ganiatáu ymchwilio i gwynion mewn llwybr gwasanaeth iechyd cyhoeddus/preifat</u>

9. Gwnaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon i gynnwys cartrefi gofal, gofal cartref a gofal lliniarol. Yn gyffredinol, rydym yn croesawu darpariaethau sy'n alinio trefniadau iechyd a gofal cymdeithasol, ble y bo'n briodol, ac sy’n osgoi gwahaniaethau sectoraidd mympwyol.

10. Rydym yn cefnogi'r ddarpariaeth i'r Ombwdsmon ystyried y gofal a'r driniaeth a ddarperir gan ddarparwr gofal iechyd preifat pan fod y gofal/triniaeth honno wedi deillio o'r GIG, neu wedi bod yn rhan o lwybr gofal unigolyn sydd wedi cynnwys y GIG hefyd. Mae hyn yn ymddangos yn synhwyrol ac mae’n cefnogi'r egwyddor o ofal di-dor sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

## <u>Pŵer i ymgymryd â rôl mewn perthynas â safonau a gweithdrefnau delio â chwynion</u>

11. Mae'r Bil yn caniatáu i'r Ombwdsmon gyhoeddi datganiad o egwyddorion yn ymwneud â delio â chwynion, a chyhoeddi gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer delio â chwynion. Mae'n caniatáu i'r Ombwdsmon ddatgan diffyg cydymffurfiaeth gan gorff rhestredig. Mae'n ofynnol hefyd i'r Ombwdsmon ysgwyddo rôl wrth oruchwylio’r gwaith o weithredu gweithdrefnau delio â chwynion, gan gynnwys hybu arfer gorau.

12. Rydym yn ystyried y byddai safoni gweithdrefnau cwyno o gymorth i'r cyhoedd. Mae'r mater hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cynnig ar gyfer alinio prosesau ac archwilio cwynion ar y cyd ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol, fel yr amlinellir ym Mhapur Gwyn "Gwasanaethau sy'n Addas i’r Dyfodol". Credwn pan fod dinasyddion yn

derbyn gofal integredig y dylent allu cwyno unwaith yn unig, yn hytrach na gwneud dwy gŵyn ar wahân i wasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd hi'n bwysig bod corff clir sy'n arwain yr ymchwiliad i'r gŵyn gyda'r awdurdod i arwain ar ran y ddau gorff.

13. Bydd angen ystyried ymhellach ynglŷn â sut y bydd hyn yn ymddangos i ddinasyddion a allai fod yn derbyn gofal gan gyfuniad o wasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a darparwyr gofal annibynnol, yn arbennig o ystyried yr ymestyniad i awdurdodaeth yr Ombwdsmon i archwilio llwybr gwasanaeth iechyd cyhoeddus/preifat.

14. Ar y cyfan, rydym yn ystyried y byddai o fudd pennaf i'r cyhoedd gael corff sy'n gyfrifol yn benodol am sicrhau bod prosesau cwyno yn gweithredu'n gyson ac yn ddi-dor er budd pennaf i'r cyhoedd. Rydym hefyd yn croesawu'r cyfle mae hwn yn ei gynnig i sicrhau bod data cyson a chymaradwy yn cael ei gasglu ar draws y gwasanaethau cyhoeddus ac yr adroddir amdano.

## Darpariaeth i'r Ombwdsmon ymgymryd ag ymchwiliadau yn ôl ei gymhelliant ei hun

15. Mae'r Bil yn cydnabod bod nifer o gyrff sydd eisoes yn ymgymryd â'r math hwn o adolygiad ac y bydd hi'n bwysig sicrhau nad oes unrhyw orgyffwrdd rhwng rolau'r arolygiaethau a'r rheoleiddwyr, Archwilydd Cyffredinol Cymru, a chomisiynwyr.

16. Mae'r berthynas rhwng AGIC a'r Ombwdsmon wedi datblygu'n dda yn ystod y blynyddoedd diwethaf a chytunwyd ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn amlinellu sut y bydd y ddau sefydliad yn cydweithio ar faterion sydd o ddiddordeb cyffredin. http://hiw.org.uk/docs/hiw/publications/160728psowmoucy.pdf

17. Er bod y Bil yn cyfeirio at "unrhyw unigolyn sy'n gweithredu swyddogaethau rheoleiddiol yng Nghymru" fel "unigolyn penodedig" at ddibenion yr ymgynghoriad gyda'r Ombwdsmon, nid yw'n cynnwys y pwerau i gydweithredu, cynnal ymchwiliadau ar y cyd, a pharatoi adroddiadau ar y cyd gyda rheoleiddwyr yn yr un ffordd ag y mae'n gwneud ar gyfer comisiynwyr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Byddai'n siomedig pe bai'r ddeddfwriaeth yn cyfyngu ar allu AGIC ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i weithio gyda'i gilydd er lles y cyhoedd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

## Y dirwedd ehangach

18. Mae'r pwerau newydd i weithredu fel Awdurdod Safonau Cwynion ac ymgymryd ag ymchwiliadau yn ôl ei gymhelliant ei hun yn cynrychioli

datblygiad sylweddol o ran rôl yr Ombwdsmon. Mae'r rôl bresennol yn canolbwyntio ar lefel yr unigolyn, gan edrych i mewn i gwynion unigolion am wasanaethau cyhoeddus a darparwyr gofal annibynnol yng Nghymru. Bydd y pwerau newydd yn golygu bod yr Ombwdsmon hefyd yn gweithredu ar lefel y system, gan sicrhau bod systemau cwynion yn gweithio'n effeithiol yn gyffredinol ac yn archwilio patrymau a thueddiadau i nodi materion systemig posib ar gyfer archwiliad pellach.

19. Ar lefel yr unigolyn, nid oes unrhyw gorff arall sy'n gyfrifol am ymchwilio i gwynion am wasanaethau gan gyrff rhestredig pan fod aelod o'r cyhoedd yn anhapus gyda'i ymateb gan y darparwr gwasanaeth gwreiddiol. Golyga hyn fod rôl yr Ombwdsmon yn weddol hawdd i'w chyfleu.

20. Ar lefel y system, mae amrywiaeth eang o gyrff gwahanol sydd â chyfrifoldeb dros nodi ac archwilio problemau systemig wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys Archwilydd Cyffredinol Cymru, y comisiynwyr, a nifer o gyrff rheoleiddio ac arolygu. Er bod hyn yn cael ei gydnabod yn y ddeddfwriaeth i raddau, bydd yn peri heriau i'w weithredu, a bydd rhaid rheoli hynny'n ofalus.

21. Mae Cymru'n wlad fach gyda thirwedd cymharol gymhleth a gorlawn o gyrff rheoleiddiol, craffu a goruchwylio. Mae'n hanfodol bod yr holl bartïon yn deall eu rhan yn y system ac yn gweithio'n gydweithredol ac effeithiol gydag eraill, os yw'r system i weithio'n effeithiol er budd pennaf y cyhoedd.

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod pobl Cymru yn derbyn gofal da.

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

***Rhoi sicrwydd:***

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

***Hybu gwelliant:***

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

***Dylanwadu ar bolisïau a safonau:***

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisïau, safonau ac arferion.

## Ein cyfrifoldebau

Mae ein gwaith yn cynnwys gweithgareddau mewn tri maes allweddol:

- rheoleiddio gofal iechyd annibynnol
- arolygu'r GIG
- iechyd meddwl

**<u>Rheoleiddio gofal iechyd annibynnol</u>**

Cofrestru, arolygu a chymryd camau gorfodi yw'r dulliau mae AGIC yn eu defnyddio i reoleiddio’r sector iechyd annibynnol yng Nghymru yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Ffioedd) (Cymru) 2011, a deddfwriaeth arall (gweler Atodiad B).

Rydym yn rheoleiddio ac yn arolygu amrywiaeth eang o ddarparwyr gofal iechyd annibynnol, sy'n amrywio o’r rhai sy’n defnyddio laserau i ysbytai preifat llawn. Mae ein gweithgareddau craidd yn cael eu rhestru isod.

- Cofrestru ac arolygu clinigau, ysbytai ac asiantaethau meddygol annibynnol.
- Cofrestru sefydliadau iechyd meddwl ac anableddau dysgu annibynnol.

- Cofrestru ac arolygu lleoliadau sy'n defnyddio laser dosbarth 3B neu 4 neu beiriannau golau pwls dwys.
- Cymryd camau gorfodi pan nodir diffygion rheoleiddiol mewn lleoliadau cofrestredig.
- Nodi a delio gyda darparwyr sydd heb eu cofrestru o bosibl.

**Arolygu'r GIG**

Mae AGIC yn arolygu gwasanaethau a ddarperir gan y GIG ledled Cymru i brofi a yw'r gofal a ddarperir yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal. Mae nifer o arolygiadau AGIC yn rhai dirybudd, er nad yw hynny'n ymarferol bosibl bob amser. Rydym wedi cyhoeddi datganiad yn amlinellu'r rhesymeg ar gyfer p'un ai a yw ein harolygiadau yn rhai dirybudd neu gyda rhybudd. Rydym hefyd yn ymgymryd â chyfran o'n hymweliadau y tu allan i oriau swyddfa.

Mae'r arolygiadau yn profi yn erbyn tri maes penodol:

- ansawdd profiad y claf
- cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth

**Iechyd meddwl**

Canolbwynt y gwaith hwn yw sicrhau bod rhai o'r unigolion mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn cael eu hamddiffyn, yn derbyn gofal, ac yn cael eu trin yn briodol mewn amgylcheddau sy'n hwyluso eu gwellhad. Mae AGIC yn ymweld ag ysbytai yn y GIG a'r sector annibynnol fel rhan o'n rhaglen waith. Rydym hefyd yn ymweld â gwasanaethau a ddarperir yn y gymuned i adolygu Gorchmynion Triniaeth Gymunedol.

Mae ein gweithgareddau craidd yn cael eu rhestru isod.

- Arolygu sefydliadau iechyd meddwl ac anableddau dysgu y GIG ac annibynnol gyda gweithgarwch dilynol priodol.
- Darparu'r Gwasanaeth Adolygu Iechyd Meddwl a phrosesu ceisiadau am Feddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD).
- Monitro gweithrediad y Mesur Iechyd Meddwl.
- Monitro gweithrediad y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.
- Monitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl.